

Strategaeth datblygu gallu'r gweithlu addysg



Rydyn ni'n galw am sefydlu Cronfa Datblygu'r Gweithlu Addysg Gymraeg o £10 Miliwn yn flynyddol am y 5 mlynedd nesaf ar gyfer:

Awdurdodau Lleol

Cyllido yn seiliedig ar geisiadau cynllunio gan yr Awdurdod Lleol

1. **Hyfforddiant Gweithlu – traws-awdurdod – ceisiadau gan awdurdodau lleol/MYM ar gyfer**
 - 1.1 Blynyddoedd cynnar/Meithrin - gan sefydliadau Addysg blynyddoedd cynnar ar y cyd gyda awdurdodau lleol er mwyn sicrhau dilyniant yn y sector statudol
 - 1.2 Ysgolion – datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm; dilyniant cynradd/uwchradd;
 - 1.3 Ôl-16 – dilyniant CA4/Addysg Uwch; dilyniant CA4/Addysg Bellach
 - 1.4 Hyfforddiant cymorthyddion dosbarth - Blynyddoedd cynnar/cynradd; uwchradd
 - 1.5 Hyfforddiant staff ategol
 - 1.6 Hyfforddiant Addysg all-gyrsiol – mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol cerdd, chwaraeon, drama ayyb
 - 1.7 Canolfannau trochi ar gyfer newydd-ddyfodiaid

Ysgolion

2. **Hyfforddiant Ysgol ganolog – cronfa benodol i ysgolion i ddatblygu'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol – ceisiadau gan ysgolion**
 - 2.1 Ysgolion Rhaglen Blaengaredd/ Goleudai
 - 2.2 Ysgolion sy'n dymuno symud ar hyd y continwwm ysgolion o fewn y 5 mlynedd nesaf
 - 2.3 Cynlluniau ysgol - ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm
 - 2.4 Cynllun ysgol – datblygu medrau iaith athrawon/ adrannau mewn ysgol
 - 2.5 Rhaglenni Teulu(targedau rhieni/disgyblion o gefndir cymysg/di-Gymraeg – rhaglen dysgu rhieni/disgyblion ar y cyd – ysgolion cynradd
 - 2.6 Hyfforddiant mewn swydd ysgol-gyfan – blaenoriaeth diwrnod au hyfforddiant mewn swydd statudol – cyllideb sydd eisoes yn bodoli
3. **Cenedlaethol – arweiniad gan Llywodraeth Cymru/ asianatethau cenedlaethol**
 - 3.1 Rhaglen Hyfforddiant mewn swydd cenedlaethol ar gyfer arweinwyr/pennaethiaid
 - 3.2 Ymgorffori modiwl ar hyrwyddo datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ym mhob rhaglen hyfforddiant ar gyfer darpar pennaethiaid ysgolion
 - 3.3 **Cynllun hyfforddiant sabothol – gwahaniaethol – yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, dilyniant a gwerthusiad**

Cynllunio

4. **Strategaeth hyfforddiant Awdurdod/consortium**
 - 4.1 **Cynllun gweithredu gan bob awdurdod yn amlinellu'r rhaglen hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y flwyddyn ariannol ac yn cydlynu'r uchod**
 - 4.2 Pob ysgol i gyflwyno cynllun ysgol ar sut y bwriedir datblygu'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg dros y 3 mlynedd nesaf
 - 4.3 **Monitro a gwerthuso gan swyddogion yr awdurdod lleol ac arolygu/mesur cynnydd gan Estyn**